## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 16 Mai 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.25pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol a Thai (eitemau 3 i 6) |

| | |
|---|---|
| Alan Thornton | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitem 4) |
| Gwilym Evans | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol (eitem 4) |
| Kate Cassidy | Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 5) |
| Keith Turner | Cadeirydd, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymru (eitem 6) |
| Sioned Evans | Pennaeth yr Uned Cyllid Preifat (eitem 7) |
| Y Cyng Russell Goodway | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 7) |
| Y Cyng John Jenkins | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 7) |
| Ian Miller | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 7) |
| Derek Gregory | Cyngres Undebau Llafur Cymru (eitem 7) |
| Nick Blundell | Cyngres Undebau Llafur Cymru (eitem 7) |
| Mike O’Leary | Cyngres Undebau Llafur Cymru (eitem 7) |
| Allan Card | Cyngres Undebau Llafur Cymru (eitem 7) |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Janet Davies.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Peter Law ei fod yn Aelod o Undeb y GMB;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor Materion Cymreig wedi gwneud sylwadau ffafriol am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i ymladd tlodi ac anfantais gymdeithasol. Ymrwymodd i gynnwys crynodeb o'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.

3.2 Ar y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*, dywedodd y Gweinidog y câi cyhoeddiad ei wneud yn fuan ar ddethol cymunedau. Yr oedd yr ymatebion i'r ail ymarferiad ymgynghori wrthi yn cael eu dadansoddi, ac wedi hynny câi fframwaith ei ddatblygu er mwyn rhoi'r rhaglen ar waith. Câi'r canllawiau eu cyhoeddi ym mis Medi yn ôl pob tebyg, ynghyd â gwahoddiad i gyflwyno cynlluniau cymunedol. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyllid yn dechrau cael ei ryddhau o dan y rhaglen yn yr hydref.

3.3 Dywedodd y Gweinidog y penderfynwyd, ar ôl trafod gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, cadw at un bil treth gyngor. Cytunwyd mai hynny yw'r dull mwyaf cost-effeithiol o ran gweinyddu ac y byddai cyflwyno biliau ar wahân ar ran awdurdodau'r heddlu a chynghorau cymuned yn groes i'r gwerth gorau. Ymrwymodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar waith pellach sy'n cael ei wneud gan y Gweithgor Trethu Lleol ar ddulliau amgen o gyhoeddi'r wybodaeth esboniadol a ddarperir gyda biliau'r dreth gyngor. Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd orau o ateb anghenion pobl sydd â nam ar eu golwg.

3.4 Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cwrdd yn ddiweddar â Chyfarwyddwr Cenedlaethol newydd y Gwasanaeth Prawf dros Gymru a Lloegr ac Ymgynghorydd Cymru y Gyfarwyddiaeth Prawf Genedlaethol. Teimlai'r Aelodau fod hwn yn symudiad cadarnhaol a chytunwyd y dylid gwahodd y Gwasanaeth Prawf i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

3.5 Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno y dylid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo gyda'r gweithiau cyfalaf tymor hwy a oedd yn ofynnol yn sgîl y tywydd garw yr hydref diwethaf. Deuai'r ceisiadau, heb gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, gwaith draenio tir ac amddiffyn yr arfordir, i oddeutu £26 miliwn. Yr oedd dadansoddiad rhagarweiniol wedi'i gwblhau a byddid yn gwneud cyhoeddiad cyn gynted â phosibl ar y cyllid ychwanegol a gâi ei ddarparu dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

**Eitem 4: Trethi busnes – Cynllun trosiannol rhyddhad rhag talu trethi: LGH-07-01 (p.1)**

4.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog fod Peter Law wedi rhoi addewid ym Mai 2000 i adolygu'r cynllun trosiannol rhyddhad rhag talu trethi a gyflwynwyd yng Nghymru yn sgîl ailbrisio trethi busnes yn 2000. Yn gyffredinol, yr oedd yr ymateb i'r adolygiad wedi bod yn gadarnhaol a chytunai'r rhai a ymatebodd i'r cynllun rhyddhad rhag talu trethi gyflawni ei amcanion gan mwyaf. Dywedodd y Gweinidog nad oedd o blaid newid y cynllun, a oedd yn gwneud y system trethu yn fwy teg ac wedi ei gydnabod fel model posibl i gynlluniau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor ganlyniadau adolygiad y flwyddyn gyntaf, yn enwedig y ffaith bod y cynllun wedi cyflawni ei amcan o warchod busnesau bach rhag codiadau mawr yn eu biliau treth yn sgîl yr ailbrisio. Mynegwyd pryder arbennig gan y diwydiant twristiaeth am y cynllun, a nodwyd bod ymatebion cefnogol wedi'u derbyn gan awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu ardaloedd twristiaeth.
- Nodwyd y byddai'r £12 miliwn a ryddhawyd gan y Gweinidog i awdurdodau lleol i'w galluogi i ganiatáu rhyddhad rhag talu trethi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rheini sy'n fwyaf eu hangen am gyfnod o dri mis. Cafwyd awgrym y dylid ymestyn y cynllun i roi cymorth i'r diwydiant twristiaeth dros yr hydref a'r gaeaf i ddod. Dywedodd y Gweinidog fod ystyriaeth fyw yn cael ei rhoi i ganlyniadau clwy'r traed a'r genau, er iddi bwysleisio'r angen i drin busnesau drwyddynt draw yn deg.
- Nodwyd nad oedd yr amserlen i ddatblygu'r cynllun rhyddhad rhag talu trethi wedi gadael fawr ddim amser i ymgynghori yngln â manylion y cynllun. Rhoddwyd ystyriaeth i amserlen yr ailbrisio sydd i'w gynnal yn 2005, i wneud yn sir y byddai yna ddigon o amser i ymgynghori'n fanwl â busnes, llywodraeth leol a'r proffesiwn trethu.
- Yr oedd yna rywfaint o bryder ei bod yn cymryd cyhyd i ddelio ag apeliadau yn erbyn prisiadau trethu. Dywedodd y Gweinidog nad oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw ber i ymyrryd yn y broses prisio. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am y broses honno. Yr oedd wedi darparu adnoddau ychwanegol i'r Asiantaeth er mwyn iddi allu dechrau'n fuan ar y gwaith o ddelio ag apeliadau yn erbyn rhestr trethu 2000.
- Mynegwyd siom gan rai Aelodau fod yr ymateb a gafwyd i'r ymarferiad ymgynghori wedi bod mor wael, yn enwedig o du'r prif sefydliadau busnes. Cytunwyd y gellid ystyried hynny yn arwydd nad oedd y cynllun wedi cael effaith andwyol ar economi Cymru.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y cynllun trosiannol rhyddhad rhag talu trethi i ystyriaeth.

**Eitem 5: Strategaethau cymunedol – Ystyried ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori: LGH-07-01 (p.2)**

5.1 Gwahoddodd y Gweinidog y Pwyllgor i nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau ar gyfer strategaethau cymunedol. Dywedodd y byddai yna gyfle pellach i drafod cynllunio

cymunedol yn y cyfarfod llawn ar 5 Mehefin.

5.2 Yr oedd yr ymgynghoriad wedi atgyfnerthu barn y Gweinidog fod i gynllunio cymunedol y potensial i roi llais cryfach i gymunedau er mwyn gwella ansawdd eu bywydau, a hefyd i symleiddio a chyd-drefnu'r prosesau cynllunio. Bwriadai roi sylw pellach i'r cynigion i resymoli'r cynlluniau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu, a monitro, drwy gytundebau polisi, i ba raddau y mae awdurdodau yn rhoi llais gwirioneddol i gr•piau gwirfoddol o ran cynllunio cymunedol. Câi pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ei atgoffa o'i rwymedigaethau fel partner mewn cynllunio cymunedol, yna byddid yn cynnal gweithdai ledled Cymru a fyddai'n canolbwyntio ar enghreifftiau ymarferol.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd y Pwyllgor o blaid defnyddio'r strategaethau cymunedol i leihau nifer y cynlluniau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid eu cynhyrchu, ac i'w rhesymoli. Mynegwyd pryder gan un Aelod yngln ag agweddau ymarferol cydamseru prosesau cynllunio.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â goblygiadau strategaethau cymunedol o ran adnoddau. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol neilltuo adnoddau sylweddol i'r gwaith o ddatblygu strategaethau cymunedol, o gofio'r angen i roi llais i gymunedau lleol. Fodd bynnag, teimlai'r Gweinidog fod yna le i sicrhau arbedion drwy gronni adnoddau a lleihau unrhyw orgyffwrdd a dyblygu.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r cynnig i adolygu strategaethau cymunedol bob pedair blynedd yn unol â'r cylch etholiadau llywodraeth leol. Yn ychwanegol at adolygiad o'r fath, awgrymwyd y dylai fod yna adolygiad blynyddol i asesu'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y strategaeth. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried yr awgrym hwn.
- Awgrymwyd hefyd y dylai strategaethau cymunedol fod yn ddigon hyblyg i ymdopi ag ergydion mawr, annisgwyl a ddaw i ran cymunedau lleol, er enghraifft, drwy i nifer fawr o bobl golli eu swyddi mewn ardal.
- Tynnodd Aelodau sylw at bwysigrwydd ennyn perthynas fyw gyda chymunedau ac annog cyfranogiad y cyhoedd wrth symud strategaethau cymunedol yn eu blaen. Teimlai'r Pwyllgor fod ennyn cyfranogiad cymunedau lleol a ‘chymunedau sy'n rhannu'r un diddordebau’ yn hanfodol er mwyn i gynllunio cymunedol lwyddo. Dywedodd y Gweinidog fod y Comisiynydd Hawliau Anabledd wedi codi sawl pryder allweddol, a oedd i gael eu trafod ymhellach ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Cytunai'r pwyllgor fod gan gymunedau ffydd y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni strategaethau cymunedol. Teimlid y dylid cydnabod y gwaith a wneir ar hyn o bryd o fewn cymunedau gan gr•piau eglwysig, gan gynnwys y nifer fawr o weithwyr ieuenctid gwirfoddol. Teimlai'r Pwyllgor y dylai gr•piau o'r fath gael eu cynnwys mewn ymarferiadau ymgynghori yn y dyfodol.
- Awgrymodd y Cadeirydd mai da o beth yw cynnal archwiliad o'r holl gr•piau a sefydliadau sy'n gweithredu mewn ardal neilltuol. Dywedodd y Gweinidog y byddai cynghorau tref a chymuned yn gallu helpu efallai gyda'r broses hon.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth symud

ymlaen â chynllunio cymunedol yng Nghymru.

**Eitem 6: Cyflwyniad ar waith y Gwasanaeth Heddlu yng Nghymru**

6.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Keith Turner, Cadeirydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymru, i'r cyfarfod. Gwahoddodd ef i roi ei gyflwyniad ar ôl i'r gweinidog gyflwyno'r eitem.

6.2 Er nad yw lleihau torcyfraith yn fater sydd wedi'i ddatganoli, dywedodd y Gweinidog fod troseddu yn thema drawsbynciol bwysig yn agenda polisi cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol, y mae hi'n gyfrifol amdani. Teimlai fod Cymru yn ffodus fod ganddi heddluoedd mor effeithiol, sydd yn cyflawni cyfraddau datrys troseddau uchel yn gyson. Ar ben hynny, yr oedd y Gwasanaeth Heddlu yng Nghymru wedi dangos parodrwydd i ymateb i newid, yn ogystal ag ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a gr•piau eraill er mwyn creu cymunedau mwy diogel.

6.3 Dywedodd Keith Turner mai'r un yw nodau ac amcanion y Gwasanaeth Heddlu yng Nghymru â nodau ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol. Tynnodd sylw at yr effaith andwyol ar gymunedau sy'n deillio o droseddu ac, yn fwy pwysig, ofn pobl o ddioddef troseddau yn eu herbyn, a thynnodd sylw hefyd at effaith lesol cyfraddau troseddu isel. Er bod heddluoedd Cymru yn perfformio'n dda o'u cymharu â heddluoedd eraill, rhaid peidio â bod yn hunanfodlon. Yr oedd yn bwysig canolbwyntio nid dim ond ar y cyfraddau datrys troseddau, ond hefyd ar fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd troseddu.

6.4 O ran bwrw ymlaen â strategaethau troseddu ac anhrefn, pwysleisiodd Keith Turner yr angen i'r gwahanol gyrff weithio mewn partneriaeth. Teimlai ei bod yn bwysig i bob partner rannu gwybodaeth, gan y byddai hynny'n help i gyflawni amcanion unigol yn ogystal ag amcanion cyfun. Yr oedd y Gwasanaeth Heddlu yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Lleihau Torcyfraith i ddatblygu cronfa ddata er mwyn ei gwneud yn haws cyfnewid gwybodaeth.

6.5 Dywedodd Keith Turner mai ei farn bersonol ef oedd mai'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddylai fod yn gyfrifol am faterion cyfiawnder yr ifanc, o ystyried y cyswllt rhwng hynny â materion diogelwch cymunedol ehangach.

6.6 O ran y camau y mae'r Gwasanaeth Heddlu yn eu cymryd i ostwng lefel troseddu mewn ardaloedd gwledig, nodwyd bod y plismona yn aml yn cael ei wneud gan heddwas sydd wedi ei neilltuo'n unswydd i'r gwaith ac sy'n rhagweithiol yn y gymuned leol. Yr oedd yn rhaid mabwysiadu rôl fwy adweithiol wrth blismona mewn ardaloedd trefol, a gallai hynny ymddangos yn llawer llai agos atoch, er bod sylw yn cael ei roi i hyn drwy fesurau megis rhaglenni cyswllt ag ysgolion. Yr oedd Keith Turner yn awyddus i ehangu'r ddarpariaeth teledu cylch cyfyng, o ystyried y manteision yn nhermau lleihau torcyfraith. Mynegodd bryder yngln â gweinyddiaeth y ‘Cynllun Plismyn’, lle'r oedd yr amserau a'r costau prosesu wedi cynyddu'n fawr ers trosglwyddo'r weinyddiaeth y tu allan i Gymru.

6.7 Amlinellodd Keith Turner hefyd y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â chamddefnyddio

cyffuriau, a phwysleisiodd yr ansicrwydd yngln â gwir maint y broblem.

6.8 O ran yr achosion sydd wrth wraidd troseddu, dywedodd Keith Turner fod y cyswllt ag amddifadedd cymdeithasol wedi'i gofnodi'n dda. Yn nhermau mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, pwysleisiodd yr angen am gyfleoedd sy'n cynnig gwaith cynaliadwy a'r angen i annog dinasyddiaeth mewn plant o oed cynnar. Mynegodd bryder y gallai'r cysylltiad rhwng diweithdra a chynnydd mewn gweithgaredd troseddol arwain at oblygiadau difrifol yn sgîl y diswyddiadau a gyhoeddwyd ar raddfa eang gan Corus yn ddiweddar.

6.9 I gloi, dywedodd Keith Turner fod cost troseddu yng Nghymru a Lloegr wedi'i hamcangyfrif yn £60 biliwn y flwyddyn. Yr oedd yn bwysig mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd troseddu er mwyn helpu i ostwng y costau hyn a rhyddhau adnoddau i'w defnyddio mewn mannau eraill.

6.10 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth.

- Nododd y Pwyllgor berfformiad da heddluoedd Cymru o ran datrys troseddau. Rhoddai groeso arbennig i ymrwymiad y Gwasanaeth Heddlu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill i fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd troseddu a chreu cymunedau mwy diogel.
- Teimlai'r Pwyllgor fod presenoldeb heddlu cryf a gweladwy o'r pwys mwyaf wrth fynd i'r afael â gweithgaredd troseddol ac ofn y cyhoedd o wynebu troseddau yn eu herbyn, mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Dywedodd Keith Turner fod y rhan fwyaf o heddluoedd Cymru yn nodi ffyrdd o wneud eu gwasanaeth yn fwy hygyrch, gan gynnwys adleoli gorsafoedd yr heddlu yng nghanol trefi a dinasoedd a recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal gorsafoedd heddlu yn effeithiol.
- Croesawai'r Pwyllgor waith y Gwasanaeth Heddlu yn mynd i'r afael â throseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Cytunai'r Aelodau fod addysgu pobl ifanc am beryglon cyffuriau yn sylfaenol bwysig er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwyrdröedig a gweithgaredd troseddol sydd a wnelont â chyffuriau. Awgrymwyd y dylid defnyddio rhan o'r cyllid a ddarparwyd drwy'r fenter Cymunedau yn Erbyn Cyffuriau ar gyfer gwaith atal ac ailsefydlu.
- Ymrwymodd y Gweinidog i godi pryderon Keith Turner yngln â gweinyddiaeth ‘Cynllun Plismyn’ Cymru gyda Llywodraeth y DU.
- Nodwyd bod cynlluniau teledu cylch cyfyng yn sicrhau gostyngiad sylweddol drwyddo draw mewn troseddu, er bod cyfran o'r troseddu yn symud i fannau eraill.
- Mynegodd y Cadeirydd bryder yngln â'r diffyg cysondeb yn y protocolau rhwng pob awdurdod heddlu a'r gwasanaethau prawf, yr awdurdodau lleol a'r awdurdodau iechyd mewn perthynas â throseddwyr rhyw.
- Nodwyd bod Prif Weinidog Cymru wedi rhoi ymrwymiad y byddai'n ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am faterion cyfiawnder yr ifanc y tro nesaf y byddai'n ystyried dyraniad portffolios y Gweinidogion.
- Trafodwyd rhywfaint ar y ffaith bod y cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Heddlu wedi'i rannu ar hyn o bryd a bod hynny'n achosi dryswch. Teimlai'r Aelodau fod hynny'n anfoddhaol. Teimlai'r Gweinidog y byddai'n rhaid llunio achos o blaid datganoli'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Heddlu yn llwyr o'r Swyddfa Gartref i'r Cynulliad Cenedlaethol maes o law.

6.11 Diolchodd y Cadeirydd i Keith Turner am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 7: Partneriaethau Preifat Cyhoeddus a'r Fenter Cyllid Preifat:**

**LGH-07-01 (p.3), LGH-07-01 (p.4) ac LGH-07-01 (p.5)**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngres Undebau Llafur Cymru i'r cyfarfod, cyn gwahodd y Gweinidog i gyflwyno ei phapur. Dywedodd y Gweinidog iddi gyhoeddi, yn ystod y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 5 Rhagfyr, ei bod yn bwriadu cyfeirio'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus (PPP) a'r Fenter Cyllid Preifat (PFI) i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a hefyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bwriadai roi adroddiad cynnydd pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwyliau'r haf.

7.2 Dywedodd y Gweinidog fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi 13 o gynlluniau awdurdodau lleol gyda chredydau PFI. Yr oedd Ysgol Penweddig yn Aberystwyth eisoes wedi agor ei drysau, ac yr oedd dau brosiect arall wrthi'n cael eu hadeiladu. Yr oedd yn awyddus i adeiladu ar y profiad a gafwyd hyd yma a rhoi cyfarwyddyd clir i awdurdodau sy'n dymuno mynd ar drywydd cynlluniau PPP/PFI. Yr oedd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol egluro ei safbwynt ar gredydau PFI mewn cynlluniau awdurdodau lleol i'r dyfodol, cyn symud ymlaen â'r materion eraill a godwyd yn y papur.

7.3 Teimlai'r Gweinidog fod yna ryw gyfiawnhad i'r pryderon a fynegwyd yngln â'r amserau caffael sydd ynghlwm wrth gontractau PPP/PFI. Yr oedd costau ymgynghorwyr yn golygu traul gychwynnol fawr i awdurdodau lleol, er y gellid lliniaru'r draul honno drwy barhau i ddatblygu sgiliau a rhannu arbenigedd. Yr oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol wella ansawdd y gefnogaeth a roddir ganddo i PPP/PFI yng Nghymru. Yr oedd adnoddau ychwanegol eisoes wedi'u darparu er mwyn datblygu cyngor a chanllawiau, a byddai gwefan bwrpasol ar gyfer PFI yn cael ei lansio'n fuan.

7.4 Wrth arwain cyflwyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd y Cyng Russell Goodway fod blynyddoedd cynnar y Fenter Cyllid Preifat wedi'i nodweddu gan oedi, cymhlethdod a chostau uchel. Yn 1996, ceisiodd yr awdurdodau lleol ddatblygu fframwaith PFI symlach drwy'r Rhaglen Partneriaethau Preifat Cyhoeddus. Tynnai cefnogwyr PFI sylw at y ffaith nad oedd yn anodd cael gafael ar gyfalaf preifat i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw a oedd wedi cronni, yn enwedig ar dai ac ysgolion. Fodd bynnag, teimlai Russell Goodway mai'r gwir gwestiwn i ymrafael ag ef oedd nid pwy sy'n darparu'r cyfalaf, ond ai drwy godi trethi ynteu drwy gyfrwng rhenti y dylid talu'r gost o fenthyca'r cyfalaf. Heb y naill neu'r llall, dim ond breuddwyd gwrach fyddai cael gwared â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni.

7.5 Amheuai Russell Goodway hefyd pa un a allai cynlluniau PFI roi gwerth am arian. Yr oedd yn rhaid i gwmnïau sector preifat sicrhau enillion derbyniol ar eu buddsoddiad ac nid ydynt yn gallu manteisio ar gyllid cyfalaf am y cyfraddau ffafriol sydd ar gael i Drysorlys E M.

7.6 Dywedodd Russell Goodway mai barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd y dylai cynlluniau PPP/PFI barhau i fod yn opsiwn i awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu ar y ffordd orau o gaffael asedau cyfalaf, yn unol â'r gwerth gorau. Dylai fod tir gwastad fodd bynnag rhwng y gwahanol opsiynau caffael, a gellid cyflawni hynny pe bai'r rheolaeth ganolog dros fenthyca yn cael ei newid am gyfyngiadau benthyca doeth. Teimlai'r Gymdeithas hefyd na ddylid cynnal unrhyw gylchoedd ymgeisio pellach am PFI mewn llywodraeth leol, ac eithrio ar gyfer prosiectau mawr iawn efallai. Yr oedd cylchoedd ymgeisio yn wastraffus o adnoddau, a châi'r Cynulliad Cenedlaethol ei roi mewn sefyllfa o orfod barnu pa flaenoriaeth gymharol i'w rhoi i brosiectau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Hefyd, teimlai'r Gymdeithas ei bod yn annerbyniol ceisio ffafrio PFI uwchlaw opsiynau caffael eraill drwy gynnig cymhelliant ariannol, yn enwedig pan oedd yr adnoddau yn cael eu brig-dorri oddi ar y setliad refeniw cyffredinol.

7.7 Dywedodd y Cyng John Jenkins mai ef oedd cynrychiolydd y Gymdeithas ar Fwrdd y Rhaglen Partneriaethau Preifat Cyhoeddus. Bu'r rhaglen honno yn un ddylanwadol o ran sefydlu strwythurau i helpu i dywys cynlluniau PFI yn eu blaen o fewn llywodraeth leol, a hefyd drwy ddarparu cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol. Holai Russell Goodway pa gyfiawnhad oedd yna i Uned Cyllid Preifat y Cynulliad Cenedlaethol. Teimlai na ddylai ddyblygu gwaith y Rhaglen Partneriaethau Preifat Cyhoeddus yn rhannu'r ymarfer gorau rhwng awdurdodau lleol. Dywedodd y Gweinidog na allai'r Uned weithredu fel ymgynghorwyr oherwydd rôl cyllido'r Cynulliad Cenedlaethol, felly nid oedd unrhyw orgyffwrdd â'r Rhaglen Partneriaethau Preifat Cyhoeddus.

7.8 Wrth arwain cyflwyniad Cyngres Undebau Llafur Cymru, dywedodd Derek Gregory fod yr undebau llafur yn gwrthwynebu cynlluniau PFI/PPP mewn egwyddor, ac yn rhannu llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nid oedd PFI yn ddull caffael cost-effeithiol, gyda chost prosiectau yn cael ei throsglwyddo i drethdalwyr y dyfodol. Fodd bynnag, er gwaethaf y pryderon hyn, yr oedd Cyngres Undebau Llafur Cymru yn barod i weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i ddatblygu model PFI penodol ar gyfer Cymru.

7.9 Yr oedd Cyngor Undebau Llafur Cymru yn pryderu'n arbennig yngln ag effaith cynlluniau PFI ar staff. Dywedodd Nick Blundell mai'r rhesymeg dros drosglwyddo staff i'r sector preifat oedd gwneud arbedion ar gostau staff, a thrwy grebachu telerau ac amodau y câi hynny ei gyflawni. Er y byddai staff sy'n trosglwyddo yn cadw eu telerau a'u hamodau o dan reoliadau TUPE, dangosai profiad y byddai'r rhain yn crebachu dros amser. Fel enghraifft, dyfynnodd Nick Blundell y ddarpariaeth pensiwn, gyda chynlluniau pensiwn seiliedig ar y cyflog terfynol yn cael eu disodli gyda chynlluniau prynu arian lle mae'r buddion i'r dyfodol yn llawer llai sicr. Hefyd, câi staff newydd eu cyflogi yn aml ar delerau ac amodau gwahanol, felly gallai gweithlu dwy haen ddatblygu. Pwysleisiodd Allan Card yr ansicrwydd sydd yna yn y sefyllfa i staff sy'n trosglwyddo i'r sector preifat o dan reoliadau TUPE, ac awgrymodd fod angen gwneud gweithwyr yn ymwybodol o'u sefyllfa.

7.10 Dywedodd Mike O'Leary fod cynlluniau PFI yn fygythiad i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus da, gan fod gwneud rhaniad rhwng staff craidd a staff arall yn achosi rhwyg ac yn fygythiad i weithio fel tîm. Teimlai y byddai problemau hirdymor PFI yn fwy na'r manteision tymor byr.

Awgrymodd Derek Gregory bod y Fenter Cyllid Preifat yn cael ei gyrru'n llwyr gan ystyriaethau masnachol ac nad oedd yn cydnabod ethos gwasanaethu'r cyhoedd o gwbl. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai effaith andwyol cynlluniau PFI yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, ac ni fyddai hynny'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfle cyfartal.

7.11 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mynegwyd nifer o amheuon gan Aelodau yngln â PFI fel dull caffael. Yr oedd yna bryder neilltuol yngln â'r effaith ar staff, y goblygiadau o ran ansawdd gwasanaethau a pha un a fyddai'r cynlluniau yn rhoi gwerth am arian yn y tymor hir. Cefnogi'r Pwyllgor y farn fod bod yn berchen ar asedau yn llawer llai pwysig na rheoli'r gwasanaethau a ddarperir.
- Teimlai'r Pwyllgor y dylid cadw PFI fel opsiwn caffael i awdurdodau lleol, cyhyd ag y gellid datblygu model penodol ar gyfer Cymru i roi sylw i'r amheuon hyn. Yn arbennig, yr oedd yr Aelodau'n awyddus i warchod telerau ac amodau pob aelod staff ac osgoi creu gweithlu dwy haen. Teimlent hefyd y dylai awdurdodau lleol allu benthyca ar yr un telerau â'r sector preifat, fel y gellid seilio'r dewis rhwng gwahanol opsiynau caffael ar gymhariaeth deg o'r costau dros oes y prosiect.
- Nododd y Pwyllgor farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na dylid cynnal unrhyw gylchoedd ymgeisio pellach ar gyfer PFI o fewn llywodraeth leol, ac eithrio efallai yng nghyswllt prosiectau mawr iawn. Dywedodd Ian Miller nad oedd gan y Gymdeithas unrhyw farn bendant ar yr hyn a olygir wrth gyfeirio at brosiect mawr. Awgrymodd y gallai Ffordd Ddosbarthu De Casnewydd fod yn enghraifft o brosiect PFI lle byddai angen cymorth ariannol ychwanegol ar yr awdurdod lleol. Dywedodd y Gweinidog fod naw allan o'r deg awdurdod lleol a oedd wedi ymateb i'r ymarferiad ymgynghori PFI/PPP wedi datgan cefnogaeth i barhau â'r rhaglen o gylchoedd ymgeisio.
- Yr oedd rhywfaint o bryder y byddai dileu unrhyw gylchoedd ymgeisio pellach am PFI yn gwahaniaethu'r annheg yn erbyn awdurdodau lleol llai, gan y byddent yn ei chael yn fwy anodd nag awdurdodau mawr i symud prosiectau PFI yn eu blaen. Dywedodd Ian Miller y byddai'r system benthyca'n ddoeth sy'n cael ei chynnig yn caniatáu i bob awdurdod lleol benderfynu faint y gallai fforddio ei fenthyca, a gellid cymharu cost benthyciad newydd ar gyfer caffaeliad confensiynol gyda chost cynllun PFI.
- Nodwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi defnyddio PFI fel opsiwn caffael. Cyfeiriodd y Gweinidog at wneud cefnffordd yr A55 ar draws Ynys Môn yn ffordd ddeuol ac at system TG OSIRIS.

7.12 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngres Undebau Llafur Cymru am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor. Gwahoddodd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth symud Partneriaethau Preifat Cyhoeddus a'r Fenter Cyllid Preifat yn eu blaen yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngres Undebau Llafur Cymru i egluro nifer o bwyntiau manwl ac, wedi hynny, byddai'n cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfod 2 Mai: LGH-06-01 (min)**

8.1 Dywedodd Clerc y Pwyllgor fod cynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân wedi gofyn am newid brawddeg olaf y pwynt bwled olaf ym mharagraff 7.5 i'w gwneud yn glir y byddent yn croesawu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Tân (yn hytrach na diogelwch rhag tân) i'r Cynulliad Cenedlaethol.

8.2 Ar wahân i'r newid hwn, cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.

8.3 Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â sefyllfa grp plaid y Democratiaid Rhyddfrydol mewn perthynas â chyhoeddiad y Gweinidog ar flwyddyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mai 2001**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEIHTREDU YN DEILLIO O GYFARFOD 16 MAI**

1. Y Gweinidog i gynnwys crynodeb o'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf (paragraff 3.1).

2. Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar y gwaith ar ddulliau amgen o gyhoeddi'r wybodaeth esboniadol a ddarperir gyda biliau'r dreth gyngor (paragraff 3.3).

3. Y Cadeirydd i wahodd y Gwasanaeth Prawf i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor (paragraff 3.4).

4. Y Gweinidog i godi'r cwestiwn yngln â gweinyddiaeth Cynllun Plismyn Cymru gyda Llywodraeth y DU (paragraff 6.10).